

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Longfield Medical Consulting Rooms

Dyddiad y gweithgarwch: **26 Ionawr 2021**

Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Longfield Medical Consulting Rooms (y lleoliad) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae ystafelloedd ymgynghori preifat gan y practis, ac mae'n darparu amrywiaeth o ymgynghoriadau arbenigol gan gynnwys ymgynghoriadau ym meysydd Offthalmoleg, Clust Trwyn a Gwddf (ENT), Cardioleg, Meddygaeth Anadlol ac Wroleg.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol ar 26 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiwyd y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn sicrhau y byddai modd cadw pellter cymdeithasol yn y lleoliad wrth barhau i ddarparu'r gwasanaethau cofrestredig yn ddiogel. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys mynd â chadeiriau o'r ystafelloedd aros. Roedd yn ofynnol i'r cleifion gyrraedd ar amser; roedd saib rhwng pob apwyntiad er mwyn sicrhau bod modd glanhau cyn gweld y claf nesaf. Roedd y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ac roedd y ffenestri a'r drysau'n cael eu hagor er mwyn sicrhau awyru digonol. Disgrifiwyd yr arwyddion dwyieithog yn ymwneud â golchi dwylo a phellter cymdeithasol a oedd yn cael eu harddangos.

Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi parhau ar agor drwy gydol y pandemig. Roedd y lleoliad wedi diweddarau ei asesiadau risg a glanhau'r safle'n drylwyr ar ddechrau'r pandemig. Roedd wedi caffael PPE perthnasol, gan gynnwys PPE arbenigol ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol¹ sydd ei angen ym maes ENT.

Disgrifiodd y staff y gweithgareddau ychwanegol a oedd wedi cael eu cynnwys yn yr amserlenni glanhau yn ystod y cyfnod COVID-19 hwn. Roedd y rhain yn cynnwys glanhau'n drylwyr i ddechrau, a glanhau'r practis a'r ystafelloedd ymgynghori eto gweld y claf nesaf. Dywedwyd wrthym fod y lleoliad wedi bod yn cael ei lanhau'n drylwyr bob mis, a bod rhestrau gwirio at ddefnydd y glanhawyr. Roedd hyn yn cynnwys glanhau'r cyfarpar eto cyn gweld y claf nesaf. Rhoddwyd tystiolaeth inni o amserlenni glanhau'r lleoliad ar gyfer yr ystafelloedd a'r cyfarpar, a gwelsom enghreifftiau o'r amserlenni hyn ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Dywedodd y staff fod y meddygon ymgynghorol yn rhoi blaenoriaeth i'r cleifion y byddant yn eu gweld, a bod y lleoliad yn ceisio rhoi apwyntiad cyntaf y dydd i'r bobl a oedd yn wynebu'r risg fwyaf, megis pobl sy'n gwarchod². Roedd y cleifion hyn yn cael eu tywys yn syth i'r ystafell ymgynghori berthnasol ac roedd mwy o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer yr apwyntiad i sicrhau na fyddai'r unigolyn yn dod i gysylltiad â chleifion eraill.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

¹Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol, a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef â chyfrwng heintus a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

² Mae pobl a gaiff eu disgrifio'n bobl sy'n hynod agored i niwed yn glinigol yn wynebu risg fawr o salwch difrifol o'r coronafeirws.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisiau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiwyd asesiadau risg COVID-19 priodol a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer y staff i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel. Yn ychwanegol, roedd y lleoliad yn cwblhau asesiadau dychwelyd i'r gwaith pan oedd modd i'r staff ddychwelyd i'r gwaith.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu brysennu ar gyfer COVID-19 wrth wneud apwyntiadau dros y ffôn a bod y staff yn gofyn iddynt ganslo eu hapwyntiadau pe bai eu sefyllfa'n newid. Dywedwyd wrthynt hefyd am beidio â chyrraedd yn gynnar i'r apwyntiad. Roedd llythyrau apwyntiad hefyd yn cynnwys y wybodaeth hon.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion hefyd yn cael eu brysennu ar gyfer COVID-19 wrth gyrraedd y lleoliad. Roedd angen i'r cleifion ganu cloch y drws. Roedd y staff wedyn yn eu croesawu wrth y drws ac yn cofnodi eu tymheredd. Gofynnwyd i'r cleifion wisgo gorchudd wyneb neu fasg cyn mynd i mewn i'r lleoliad. Roedd y cleifion yn cael eu hysbysu am yr hyn a fyddai'n digwydd yn y clinig er mwyn sicrhau na fyddent yn dal COVID-19. Roedd y cleifion yn cael eu hebrwng i'r ystafell aros lle y gofynnid iddynt beidio â symud y cadeiriau, a oedd wedi'u gosod er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol. Pan nad oedd modd i'r cleifion wisgo masg, byddai amddiffynnydd wyneb yn cael ei roi iddynt. Os oedd y claf yn fyddar neu'n drwm ei glyw, roedd masgiau tryloyw ar gael i'r staff eu defnyddio.

Rhodddwyd copi o'r polisi atal a rheoli heintiau cyfredol inni. Roedd hyn yn dangos bod y lleoliad wedi cymryd camau priodol i leihau'r risg o haint a chadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel. Dywedwyd wrthym fod newidiadau i'r mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu cyfleu i'r staff a'r cleifion drwy gyfarfodydd anffurfiol a thafleuni i'w darllen. Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff yn cadw ffolder a oedd yn cynnwys y polisiau perthnasol. Roedd y lleoliad yn cynnal diwrnod hyfforddi ar gyfer y staff pan fyddent yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod ar ffyrlo, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar PPE a hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Roedd taflen gan bob aelod o'r staff yn dangos y gweithdrefnau cywir ar gyfer gwisgo a diosg PPE. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff yn gwybod pa eitemau o PPE y dylid eu gwisgo a phryd i wisgo'r masgiau perthnasol.

Dywedodd y staff fod y lleoliad yn monitro canllawiau COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y clinig yn cydymffurfio â'r gofynion. Roedd y lleoliad yn defnyddio rhestr wirio ym mhob ystafell i sicrhau bod y gwaith glanhau perthnasol yn cael ei gwblhau, gan gynnwys glanhau dolenni drysau. Roedd y rhestrau gwirio a gwblhawyd yn cael eu cadw mewn ffeil. Roedd y staff yn cael hyfforddiant

mewnol ar sut i lanhau a dihalogi'r ystafelloedd a'r cyfarpar.

Gwelsom dystiolaeth o ganlyniadau arolwg y cleifion ar COVID-19. Roedd hyn yn nodi bod y cleifion a gwblhaodd yr arolwg yn gadarnhaol iawn ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn dilyn eu hymweliad â'r lleoliad. Diolchodd rhai ohonynt i'r staff yn benodol am yr holl help a chefnogaeth a roddwyd ganddynt.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo i ddechrau, ond eu bod wedi dychwelyd i'r gwaith ers hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gweithio'n rhan amser, ac nid oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Disgrifiwyd y broses sydd ar waith o roi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys y weithdrefn gwyno a'r cofnod damweiniau. Roedd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y clinig yn cael eu rhoi i'r meddygon er mwyn iddynt fynd i'r afael â nhw.

Canmolodd y rheolwr cofrestredig y staff am eu hymroddiad, a oedd wedi cadw pawb yn ddiogel. Fel y disgrifiwyd uchod, roedd y cleifion yn gwerthfawrogi ymdrechion y staff, ac roedd ganddynt gydberthynas waith dda â'r cleifion.

Dywedwyd wrthym am y broses a'r dystiolaeth sydd eu hangen i roi caniatâd i'r meddygon ymgynghorol weithio yn y clinig. Roedd hyn yn cynnwys y dogfennau sydd eu hangen, megis tystysgrifau cymhwyster a chopi o'u llythyr penodi fel meddyg ymgynghorol yn y GIG.

Rhoddyd copi o adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol inni. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y lleoliad o leiaf un diwrnod yr wythnos. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllawiau i gleifion a roddwyd inni hefyd yn berthnasol ac yn gyfredol.

Gwelsom gopiâu o wahanol ddogfennau, gan gynnwys y telerau ac amodau, y contract rhwng y claf a'r lleoliad a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth agor clinig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym nad oedd diffibriliwr³ yn y clinig, ond bod silindr ocsigen a masgiau ar gael i'r cleifion eu defnyddio mewn argyfwng. Fodd bynnag, dim ond bob chwe mis neu ar ôl eu defnyddio roedd gwiriadau o'r cyfarpar hwn yn cael eu cynnal. Dywedwyd wrthym hefyd fod meddygon ymgynghorol ar y safle a oedd yn ymwybodol o hanes y cleifion, yn ogystal ag aelodau o staff y lleoliad ei hun a oedd yn gymwys i roi cymorth cyntaf mewn argyfwng.

Rhaid i'r lleoliad roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y silindr ocsigen a'r masgiau'n cael eu gwirio'n fwy rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio.

Rhoddyd copi o'r matrices hyfforddiant gorfodol inni. Roedd hyn yn dangos nad oedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hebryngwyr.

Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod y staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol yn brydlon, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hebryngwyr.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

³ Dyfais sy'n rhoi sioc drydanol ynni uchel i galon unigolyn sy'n cael trawiad ar y galon yw diffibriliwr. Yr enw ar y sioc ynni uchel hon yw diffibrilio, ac mae'n rhan annatod o unrhyw ymdrech i achub bywyd unigolyn sy'n cael trawiad ar y galon.

Cynllun gwella

Lleoliad: Longfield Medical Consulting Rooms

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>Dim ond bob chwe mis neu ar ôl eu defnyddio yr oedd gwiriadau o'r silindr ocsigen a'r masgiau'n cael eu cynnal.</p> <p>Rhaid i'r lleoliad roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y silindr ocsigen a'r masgiau'n cael eu gwirio'n fwy rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio.</p>	Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	Rhodddwyd proses ar waith ar 26 Ionawr 2021 i wirio'r silindr ocsigen a'r masgiau'n wythnosol gan ddefnyddio taenlen â dyddiadau. Roedd BOC wedi cwblhau eu gwiriad blynyddol yr wythnos flaenorol	Sally Burge	Cwblhawyd

2	<p>Roedd tystiolaeth a roddwyd inni o'r matrices hyfforddiant gorfodol yn dangos nad oedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hebryngwyr.</p> <p>Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod y staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol yn brydlon, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hebryngwyr.</p>	Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	<p>Mae hyfforddiant staff wedi bod yn broses barhaus, ac mae'n parhau felly wrth i reoliadau gael eu hadolygu, ond mae matrices hyfforddiant gennym bellach i sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Cwblhawyd hyfforddiant diogelu 5.2.21</p> <p>Diweddarwyd hyfforddiant hebryngwyr 9.2.21</p> <p>Diweddarwyd hyfforddiant diogelwch tân 17.2.21</p> <p>Cynlluniwyd diweddarau hyfforddiant CPR 9.2.21</p>	Sally Burge	28 Chwefror 2021
---	---	---	---	-------------	------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Sally Burge

Dyddiad: 5 Chwefror 2021